Hawdd ei deall

Ebrill 2021

Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**

*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

# **Taliadau Uniongyrchol -** Crynodeb o'r Côd Ymarfer

Y rheolau ar gyfer rhoi cefnogaeth gyda Thaliadau Uniongyrchol



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu â chefnogaeth gan **Lywodraeth Cymru.**

Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014). Rhan 4. Taliadau Uniongyrchol.**

**Côd Ymarfer.**

All Wales Forum
Fforwm Cymru Gyfan

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon.
Ond efallai bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen.

Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bod geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd eu deall.

Gallwch chi edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 15.**

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**
*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd.**

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:
**Gwefan: LDTransformation@flintshire.gov.uk**

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales


Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols.**

I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y ddogfen hon, **cliciwch yma.**



## Cyflwyniad

Mae ar lawer o bobl yng Nghymru angen gofal a chefnogaeth gan wasanaethau.




Yng Nghymru mae gennym ni ddeddf sy'n cael ei galw'n **Ddeddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.** Gallwch chi ddarllen am y ddeddf **yma.**

Mae'r ddogfen hon yn egluro **Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).**




Mae'n fersiwn byr o'r **Côd Ymarfer** ar gyfer cwrdd ag anghenion gofal a chefnogaeth pobl.

**Mae Côd Ymarfer yn rhestr o reolau ynghylch y pethau y mae'n rhaid i fudiad wneud a pheidio â'u gwneud.**




Gallwch chi ddod o hyd i'r **Côd Ymarfer** cyfan ar wefan Llywodraeth Cymru, **yma.**

# Beth yw Taliad Uniongyrchol?




Mae **Taliad Uniongyrchol** yn arian gan eich Awdurdod Lleol i'ch helpu chi neu eich gofalwr reoli eich cefnogaeth eich hun.

Weithiau mae **Taliadau Uniongyrchol** yn cael eu galw'n **gyllideb wedi'i phersonoli** neu **gyllideb gefnogol.**



Mae **Taliadau Uniongyrchol** yn meddwl y gallwch chi ddewis:

- Pa help y gallwch chi ei gael




- Pryd y byddwch chi'n cael yr help



- Pwy yr hoffech chi gael i'ch helpu



Gall **Taliadau Uniongyrchol** gael eu defnyddio i dalu am bethau fel:

- Gofal personol



- Cefnogaeth i fyw yn eich tŷ eich hun



- Cefnogaeth i fynd allan



- Offer y gall fod arnoch chi ei angen



Gallwch chi ddefnyddio **Taliadau Uniongyrchol** i dalu cynorthwy-ydd personol i helpu gyda rhai o'r pethau hyn.

## Pwy sy'n gallu cael Taliad Uniongyrchol?



Gall unrhyw un sydd angen help gan wasanaethau cymdeithasol gael **Taliad Uniongyrchol.** Dylai'r pethau hyn gael eu rhestru dan **gymhwystra Taliadau Uniongyrchol.**



Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod chi'n gallu rheoli **Taliad Uniongyrchol** yn iawn.



Gallwch chi gael help i reoli **Taliad Uniongyrchol** os oes arnoch chi ei angen.



Gallwch chi gael cymysgedd o **Daliadau Uniongyrchol** a gofal wedi'i drefnu gan eich Awdurdod Lleol o oes arnoch chi eisiau.

## Gall Taliadau Uniongyrchol eich helpu chi i:



- Gael dweud eich barn am y math o help sydd arnoch chi ei eisiau a phwysydd arnoch chi ei eisiau i'ch o helpu chi.



- Cael rheolaeth dros eich llesiant eich hun.




- Cael yr help sydd ei angen arnoch chi cyn i argyfwng ddigwydd.





- Cymryd mwy o ran yng nghynllunio'r help sydd ei angen arnoch chi trwy weithio gyda'r Awdurdodau Lleol.

## Y pethau y mae'n rhaid i'r Awdurdodau Lleol eu gwneud



- Eich cefnogi i siarad am y pethau sy'n bwysig i chi a'r pethau y mae arnoch chi angen help i'w cyflawni.



- Gadael i chi wybod y gallwch chi gael **Taliadau Uniongyrchol** os bydd yn eich helpu i gyrraedd eich nod.




- Rhoi gwybodaeth i chi mewn ffordd sy'n eich helpu i benderfynu pa un a oes arnoch chi eisiau **Taliadau Uniongyrchol** a'i peidio.



- Eich helpu i ddod o hyd i gynrychiolydd os:

- nad ydych chi'n gallu rheoli eich **Taliadau Uniongyrchol** ar eich pen eich hun.
- nad oes arnoch chi eisiau rheoli eich **Taliadau Uniongyrchol** ar eich pen eich hun.



Mae **Cynrychiolydd** yn berson rydych chi'n ei ddewis i wneud pethau neu siarad ar eich rhan.



- Cefnogaeth i reoli eich **Taliadau Uniongyrchol** tra bydd arnoch chi angen help.



- Gwneud yn siŵr eich bod chi'n cymryd rhan yng nghynllunio eich gofal a chefnogaeth eich hun.




- Bod yn agored i syniadau newydd am wahanol ffyrdd y gallech chi gael y gefnogaeth sydd ei heisiau arnoch chi.



- Rhoi'r gorau i **Daliadau Uniongyrchol** pan na fydd eich gofal a chefnogaeth yn eich helpu i gyrraedd eich nodau.

## Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol beidio â:




- Gwrthod rhoi **Taliadau Uniongyrchol** ichi os byddai'n eich helpu i gyrraedd eich nodau.



- Gwrthod rhoi **Taliadau Uniongyrchol** ichi oherwydd na fedrwch chi eu rheoli nhw eich hun.



- Gwrthod rhoi **Taliadau Uniongyrchol** ichi oherwydd nad oes arnoch eisiau eu rheoli nhw eich hun.

## Defnyddio Taliadau Uniongyrchol i dalu am cynorthwy-ydd personol



Os byddwch chi'n defnyddio eich **Taliadau Uniongyrchol** i dalu cynorthwyydd personol, fe fyddwch chi'n **cynorthwy-ydd.**

Mae **cyflogwr** yn berson neu'n fudiad sy'n talu pobl eraill i weithio iddyn nhw.




Mae'r ddeddf yn dweud bod rhai pethau y mae'n rhaid i **gyflogwr** eu gwneud i ofalu am y bobl sy'n gweithio iddyn nhw.




Mae'n rhaid i'ch Awdurdod Lleol eich help i ddeall beth yw'r deddfau hynny a'ch cefnogi chi fel **cyflogwr.**



**Gall cynorthwy-ydd personol fyw yn yr un tŷ â chi cyn belled â bod:**

- Eich Awdurdod Lleol yn gwneud yn siŵr eich bod chi'n hapus i'r person hwnnw eich helpu.



- Eich Awdurdod Lleol yn credu mai nhw yw'r bobl iawn i'ch helpu i gyrraedd eich nodau.



Mae'n rhaid i'ch Awdurdod Lleol wneud yn siwr bod eich cynorthwy-ydd personol wedi pasio'r gwiriad **Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** er mwyn gweld:



- A oes ganddo gofnod troseddol



- A ddylai beidio â gweithio â grwpiau arbennig o bobl.

  Er enghraifft, plant a phobl hŷn.





Gall eich Awdurdod Lleol eich helpu i wneud gwiriad GDG a thalu amdano. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn dilyn y gyfraith ac yn cadw'n ddiogel.

## Rheoli arian




Bydd eich Awdurdod Lleol yn dweud wrthych chi a fydd rhaid i chi dalu peth o’r costau am eich gofal a’ch cefnogaeth.




Bydd arnoch chi angen llenwi ffurflenni i ddweud wrth yr Awdurdod Lleol sut rydych chi wedi gwario eich **Taliadau Uniongyrchol.**



Bydd eich Awdurdod Lleol yn rhoi cefnogaeth i chi i wneud yn siŵr bod pob ffurflen yn glir ac yn hawdd i’w llenwi.




Gall hynny o gefnogaeth sydd ei hangen arnoch chi fod yn wahanol o un wythnos i’r llall.




Does dim rhaid i chi wario yr un faint o'ch **Taliadau Uniongyrchol** bob wythnos.



Gallwch chi arbed arian **Taliad Uniongyrchol** at adeg pan fydd arnoch chi angen mwy o gefnogaeth. Dylech chi siarad am hyn â'ch Awdurdod Lleol.



**Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu arian yn ôl i'r Awdurdod Lleol os:**

- Nad ydych chi'n ei wario



- Rydych chi'n ei wario am rywbeth arall ar wahân i'ch gofal a'ch cefnogaeth.

## Geiriau anodd

**Côd Ymarfer**
Rheolau ysgrifenedig ynglun â phethau y gall mudiad eu gwneud neu beidio â'u gwneud.

**Cyflogwr**
Person neu fudiad sy'n talu i bobl eraill weithio iddyn nhw.

**Cynrychiolydd**
Person sy'n cael ei ddewis i wneud pethau neu siarad ar ran rhywun arall.

Diolch yn fawr i Mark Cooper, Cyngor Sir y Fflint a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan am eu cymorth wrth wneud y canllaw hwn.

PHOTO SYMBOLS®
Licence Number 690498011191
made with photosymbols®

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**

*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*


Ffôn
**01352 701303**

Ebost
**LDTransformation@flintshire.gov.uk**

Post
**Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd**
**Learning Disability Transformation Team**
**Ty Dewi Sant**
**Ewloe**
**CH5 3FF**


All Wales Forum
Fforwm Cymru Gyfan